**CYNGOR BRO MACHNO**

**Cofnodion** cyfarfod 30 o Orffennaf 15, 2015 a gynhaliwyd yn Festri Salem am 7.30.

**Presennol:** D Gwyndaf (Cadeirydd), Aled Roberts, Eryl Owain, Dewi Jones, Dafydd Hughes, Eifion Davies, Geraint Thomas a Colin Jones. Hefyd yn bresennol roedd Gareth Wyn Griffiths, ysgrifennydd Elusen Plwyf Penmachno.

**Adroddiad Elusen Plwyf Penmachno** – cyflwynwyd Adroddiad Ariannol yr Elusen am y flwyddyn 2014, a oedd yn adlewyrchu sefyllfa lewyrchus yr elusen. Diolchwyd i Gareth gan y Cadeirydd am ei waith fel ysgrifennydd.

**Derbyniwyd cofnodion** cyfarfod o'r Cyngor ar 11 Mehefin fel rhai cywir.

Trafodwyd y materion canlynol:

**Toiledau** – mae Cyngor Sir Conwy wrthi yn paratoi cynlluniau ar gyfer adnewyddu'r toiledau a bydd copi'n cael ei ddanfon i'r Cyngor Bro pan fyddant yn barod.

**Materion Ffyrdd** – Penderfynwyd gofyn i'r Cyngor Sir ail wynebu'r ffordd o'r Machno tuag at Ben-ffridd ac am linellau gwyn ar y troad am Wybrnant o ffordd Glasgwm. Hefyd tynnu sylw at beryglon ffordd Wybrnant oherwydd yr holl ddail ar y ffordd.

**Maes parcio ger yr Hen Ysgol** – roedd Eryl Owain wedi trafod ymestyn a gwella'r maes parcio efo rhai o Ymddiriedolwyr y Neuadd Goffa a disgwylir ymateb pellach ganddynt.

**Parcio yn y pentref** – trafodwyd y problemau sy'n codi o ran parcio mewn sawl rhan o'r pentref a chytunwyd bod angen gweithio i chwilio am atebion.

**Cwt Hers** – penderfynwyd hysbysebu yn *Yr Odyn* fod y cwt ar gael i'w rentu

**Cais cynllunio, adeilad ger Siop y Foel** – cafwyd wybod fod y cais wedi ei ganiatau gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

**Amserlen Bysiau** – penderfynwyd mynegi fod anfodlonrwydd o hyd efo'r newidiadau a gyflwynwyd.

**Swyddfa Gofrestru Llanrwst** – yn dilyn derbyn cais gan Gyngor Sir Conwy ar y bwriad i gau'r swyddfa yn Llanrwst, penderfynwyd datgan gwrthwynebiad cryf.

**Biniau Baw Cŵn** – penderfynwyd archebu biniau i'w gosod ger yr Hen Ysgol os bydd y Cyngor Sir yn barod i'w gwagio.

**Rhoddion Ariannol** – Penderfynwyd cyfrannu £50 yr un i Ffermwyr Ifanc Eryri, yr Eisteddfod Genedlaethol a Thŷ Gobaith.